



TREFN HAWLIO COSTAU CYNHALIAETH

(Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i holl staff cwmni CYNNAL)

Dylid dilyn y canllawiau canlynol wrth hawlio ad-daliadau am gostau cynhaliath :

LWFANSAU CINIO

- i hawlio lwfans cinio, rhaid bod allan o'r Ganolfan Waith am fwy na 5 awr, yn gweithio dros 5 milltir o'r Ganolfan, ac allan o'r Ganolfan dros y cyfnod 11.30am-2.30pm.
- gall staff hawlio ad-daliad am yr union swm wariwyd ar gynhaliath cinio (hyd at uchafswm y lwfans gyfredol). Os yw'r swm a hawlr yn uwch na chost cinio ysgol i oedolyn, bydd angen cyflwyno taleb fel tystiolaeth o'r gwariant.

LWFANSAU BRECWAST / TE / SWPER

Telir lwfans brecwast i'r rhai sy'n dechrau gweithio cyn 6.30am, lwfans tē i'r rhai sy'n gweithio ar ôl 6.30pm, neu lwfans swper i'r rhai sy'n gweithio ar ôl 8.30pm. (*Ni thelir lwfans tē a swper ar yr un diwrnod.*) Bydd angen taleb fel tystiolaeth o'r gwariant yn yr achosion hyn.

COSTAU ERAILL

Yn ogystal, gofynnir am daleb gan y rhai sy'n hawlio costau am aros dros nos neu gostau eraill, megis costau parcio, tollau, cludiant cyhoeddus,...

GWERTH Y LWFANSAU

Bydd gwerth cyfredol y lwfansau ar gael ar safle www.cynnal.co.uk, ac yn swyddfeydd y cwmni.

TREFN HAWLIO

- dylid cyflwyno bob hawliad misol yn rheolaidd trwy sicrhau bod y ffurflen gais yn cael ei hanfon i'r Uned Gyllid erbyn 10^{fed} o'r mis olynol;
- rhaid sicrhau bod pob cais yn gyflawn a chywir – e.e. dylid cynnwys y dyddiadau perthnasol a'r milltiroedd a deithiwyd (ynghyd â'r darlleniad cloc);
- rhaid sicrhau bod y Ganolfan Waith a'r milltiroedd cartref-gwaith yn cael eu cofnodi;
- wrth hawlio lwfansau cynhaliath dylid nodi'r amseroedd i ffwrdd o'r ganolfan waith;
 - i hawlio lwfans cinio rhaid bod allan o'r ganolfan waith am fwy na 5 awr yn ystod y cyfnod 11:30 am – 2:30 pm a rhaid bod mwy na 5 milltir o'r ganolfan waith;
 - i hawlio lwfans brecwast rhaid dechrau gweithio cyn 6:30 am
 - i hawlio lwfans tē rhaid parhau i weithio ar ôl 6:30 pm
 - i hawlio lwfans swper rhaid parhau i weithio ar ôl 8:30 pm
 - ni thelir lwfans tē a swper ar yr un diwrnod;
- bydd angen cyflwyno derbynneb gwreiddiol i gefnogi pob cais am lwfans cynhaliath ac ad-delir yr union gost hyd at uchafswm y graddfeydd sydd mewn grym ar y pryd yn unol â'r hawl rhyddhad swyddogol a gadarnhawyd gan Cyllid a Thollau EM (g. y daflen atodol);
- rhaid cyflwyno derbynneb i gefnogi unrhyw hawliad arall megis parcio, tacsî, bws neu gostau eraill;
- dylid gwneud cais am archeb swyddogol i drefnu llety dros nôs neu i brynu deunyddiau, nwyddau neu wasanaethau;